

Camau Gweithredu a Phenderfyniadau

- Sesiwn Cipolwg Profiadau Bywyd:** Rhannodd Ruth, dioddefwr cam-drin domestig, ei phrofiadau o'r System Cyfiawnder Troseddol gyda'r Bwrdd. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Bwrdd i:
 - Anfon llythyr o ddiolch gan y Bwrdd at Ruth a Rob am rannu eu profiadau bywyd.
 - Adrodd yn ôl i Ruth erbyn mis Medi 2022 ar y camau gweithredu y mae'r Bwrdd wedi eu cyflawni i fynd i'r afael â materion penodol a godwyd.
 - Cynnal cyfarfod dilynol gyda Ruth i drafod y camau nesaf ac ymglymiad yn y dyfodol gyda'r Bwrdd a gwaith newid system VAWDASV ehangach.
 - Bod Arweinwyr tasglu Tystion a Dioddefwyr yn cyfarfod â Ruth i brofi a gwirio ffrydiau waith i'w gosod o dan blaenoriaeth Dioddefwr a Tyst, yn arbennig yr adolygiad diweddu o lwybrau cyfathrebu gyda dioddefwyr.
 - Dilyn ymgysylltiad Swyddog Cyswllt Dioddefwr gyda Ruth
 - Estyn allan i'r ddau Swyddog Heddlu a ymatebodd i ddechrau a helpu Ruth i roi adborth ar effaith gadarnhaol eu gweithredoedd.
 - Ystyried yr Adnodd sy'n ystyried Trawma a beth ellir ei wneud yn rhagor i sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn ystyried trawma ym mhob pwynt.
- Cyflwyniad Cerdyn Sgorio:** Cyflwynodd tîm Y Weinyddiaeth Gyfiawnder y cardiau sgorio newydd Y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol a thrais, ac amlinellwyd y perfformiad cyfredol ar draws Cymru. Y camau gweithredu a gytunwyd arnynt oedd:
 - Y Tîm Gweinyddiaeth Cyfiawnder i ychwanegu cymhariaeth â Lloegr o fewn y dec sleid cyfredol, ochr yn ochr â data Cymru.
 - Cydllynydd Bwrdd i weithio gyda Thîm Y Weinyddiaeth Cyfiawnder i ddadansoddi perfformiad cyfredol Cymru a'r Bwrdd, ac i gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi, gan gynnwys meysydd o arferion da a heriau i'r Bwrdd fynd i'r afael â hwy.
 - Yn dilyn cwblhau fframwaith perfformiad Dyfed Powys a bydd gwaith yn cael ei gyflawni i gefnogi mabwysiadu a gweithredu'r fframwaith ar draws pob Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Bydd hyn yn cynnwys data cerdyn sgorio.
- Rhaglen Waith 2022-2023:** Yr arweinwyr strategol ar gyfer pob blaenoriaeth y Bwrdd wedi cyflwyno'r cyflawniadau allweddol y chwarter hwn. Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:
 - Bydd cofnod cyfleusterau ar gyfer safleoedd dolen fideo Safe Live yn cael eu rhannu gyda'r Farnwriaeth.
 - Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i barhau i fonitro defnydd o'r cyfleusterau Dolen Fideo Safe Live yn eu rhanbarth .
 - Y prif ffocws y Bwrdd mis Medi fydd Cynllun Gweithredu i Gymru Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol.
- Grŵp Llywio:**
 - Bydd Cyd-Gadeiryddion y Grŵp Llywio yn gweithio gydag aelodau ar gyllid i ddarparu uchelgeisiau'r Bwrdd ac yn rhoi adborth i'r Bwrdd cyn mis Medi.
 - Grŵp Llywio i ddatblygu Fframwaith Llywodraethu Cyfiawnder Troseddol, gan osod y trefniadau gan gynnwys cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd, Grŵp Llywio a grwpiau cyflawni.
 - Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i roi adborth ar y canfyddiadau o'u sampl dip i ymddieithriad dioddefwr.
- Cofnodion a Chamau Gweithredu:**
 - Grŵp Llywio i gefnogi datblygiad y grŵp Cyfathrebu Cyfiawnder Troseddol.

Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru: 9 Mehefin 2022

Gweithgareddau Cyfredol Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yng Nghymru - Mehefin 2022

Mae'r Bwrdd gyfan wedi ffocysu ei gyfarfod bwrdd ym mis Mai ar adolygu cynlluniau cyflenwi 2022-2023.

Dyfed Powys:

Dioddefwyr a Thystion:

- Bu i'r Bwrdd diwethaf ffocysu ar y cynllun newydd a datblygu'r ffocws a sut i fonitro cynnydd.
- Fframwaith perfformiad yn cael ei ddatblygu i'w ddefnyddio ochr yn ochr â chynllun cyflenwi. Metrigau wedi cael eu hychwanegu ar gyfer VCOP, RASSO, safleoedd o bell a cherdyn sgorio Cyfiawnder Troseddol. Troseddu a EIP i gael ei ddatblygu ymhellach.

Pobl sydd wedi troseddu:

- Un o'r blaenoriaethau lleol allweddol yw mapio angen sy'n achosi trosedd ar draws holl cohort troseddu - o ieuenctid, amrywiaeth, IOM a llwythi achos statudol. Mae ychydig o'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n barod. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd i herio a yw'r strwythurau a gwasanaethau cefnogi mewn lle ar hyn o bryd yn bodloni anghenion y troseddwr neu a oes bwlch i gomisiynu darpariaeth.

Cydraddoldeb Hiliol:

- Cynllun Gwrth-hiliaeth Cymru gyfan yn cael ei ymgynghori Pob aelod i roi adborth ar gyfer cytuno ar fersiwn terfynol yn y cyfarfod nesaf.

Gwent:

Dioddefwyr a Thystion:

Cod Ymarfer Dioddefwyr Cam 1 cynllun peilot sampl dip cydymffurfiaeth gyda De Cymru wedi dod i ben bellach. Mae cydymffurfiaeth camau cynnar VCOP yn parhau i wella drwy Uned Ofal Dioddefwyr Heddlu Gwent,

Trais: Mae Cydlynnydd Ymgysylltu goroeswr newydd ar gyfer Heddlu Gwent wedi dechrau'r swydd. Mae'r 3 Heddlu Cymru arall wedi derbyn cam 2 Op Soteria. Mae cynlluniau gweithredu ar y cyd wedi cael eu diweddarau, a'u sgorio i reoli cynnydd yn fuan, cyngor gan Gwasanaeth Eryl y Goron wedi cynyddu yng Ngwent.

Cyfleusterau Dolen Fideo Byw:

- Gwasanaeth IDVA wedi ymuno â safle o bell Gwent a defnydd disgwylidig i gynyddu ar y safle.
- Bydd Grŵp Llywio Dolen Fideo Gwent yn darparu trosolwg ac yn annog defnydd o'r cyfleuster.
- Bydd gweithiwr Gwent sef Cyngorydd Mesurau Arbennig (fel pob rhanbarth yng Nghymru, wedi'i ariannu gan y Swyddfa Gartref) a fydd yn cynyddu defnydd o'r safleoedd llinell fideo.

Pobl sydd wedi troseddu:

- Adborth ar y cynllun peilot Llundain Ffeil Camdriniaeth Domestig wedi bod yn gadarnhaol iawn. Pennaeth Cyfiawnder troseddol i rannu gydag arweinwyr heddlu eraill.
- Mae Heddlu Gwent yn cyflwyno Bwrdd Lleihau Troseddu mewnol.
- Cafodd werthusiad annibynnol o Ddinesiad System Gyfan Merched a Gwasanaeth Ymyrraeth Buan 18-25 ei gynnal gan Cordis Bright rhwng mis Mawrth 2021 a Chwefror 2022. Cyfranogwyr y gwerthusiad yn ymgysylltu yn well gyda'r System Cyfiawnder Troseddol.
- Bydd y Prosiect Pobl sy'n gadael Carchar 18-25 yn darparu cefnogaeth gwybodus seicolegol a llety i bobl ifanc yng Nghaerdydd a Chasnewydd i symud ymlaen.

Atal ac Ymyrraeth Gynnar

- Bu i Gwasanaeth Troseddwr Ifanc Blaenau Gwent a Chaerffili gyflawni archwiliad HMIP ar ddechrau mis Mai, a oedd yn ffocysu'n gryf ar brosesau, polisi ac ymarfer Gwarediadau y Tu allan i'r Llys. Cyfrannodd aelodau'r System Cyfiawnder Troseddol i'r archwiliad, fel asiantaeth bartner ac fel aelodau y Bwrdd Rheoli Lleol Gwasanaethau Troseddwr Ifanc. Mae disgwyl adborth ar ddiwedd mis Mai.
- Mae is-grŵp HBA newydd i Gwent wedi'i sefydlu a fydd yn bwydo i'r Grŵp HBA Llywodraeth Cymru.

Cydraddoldeb Hiliol:

- Mae aelodau yn parhau i fynychu gweithgoreu sy'n cael eu harwain gan Tasglu Cymru sydd yn datblygu Cynllun Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Cymru.

Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru: 9 Mehefin 2022

Heddlu De Cymru:

Dioddefwyr a Thystion

Cod Ymarfer Dioddefwyr:

- Gwaith yn parhau i ddatblygu dangoswrdd data.
- Heddlu De Cymru a Gwent wedi cynnal heddlu Swydd Gaergrawnt ar ddiwedd mis Ebrill, yn dilyn eu ddi-ddordeb i fabwysiadu Fframwaith Cod Cydymffurfio Dioddefwyr.

Trais:

- Cyfradd canlyniad cadarnhaol o drais yr uchaf yng Nghymru a'r 4ydd uchaf yng Nghymru a Lloegr.
- Gweithrediad Soteria yn parhau i gael ei weithredu i drawsnewid ymchwiliad o Drais.
- Gan fod cynnydd mewn trais a thrais rhywiol difrifol wedi eu cofnodi, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn gweithredu'n rhagweithiol.
- Darparwyd hyfforddiant trawma i ddioddefwyr ar y rheng flaen ac ymchwiliadau arbenigol.
- Grŵp Adolygu Trais a Phanel Craffu aml-asiantaeth mewn lle.
- Cafodd Canolfan Breswyl i Ferched ei gyhoeddi yn Abertawe, a disgwylir y bydd yn agor yn 2024. Bydd cyfleoedd i bobl fod ynghlwm.

Safleoedd dolen fideo byw:

- 7 safle yn fyw - defnydd wedi cynyddu. Ymgynghorwyr arbennig yn gwneud gwahaniaeth.
- Problemau TG yn Safle RISE Caerdydd wedi cael eu datrys. Disgwylir i ddyddiad mynd yn fyw fod yn y chwarter nesaf. Cytunwyd ar safle Canolfan Llyfrgell fel yr 2il safle Gweithredu yn mynd rhagddo.

Pobl sydd wedi troseddu:

- Gwasanaeth Prawf wedi cynnig arwain ar rai o'r gweithgareddau ac i weithio mewn perthynas ag adfywiad IOM. Yn ogystal mae'r Heddlu wedi cynnig gweithio gyda'r gwasanaeth prawf, yn arbennig mewn perthynas â chamau gweithredol ynghylch OOC. Mae G4S wedi cynnig cefnogi a WRAP o ran posibilïadau adfer i'r rhai hynny sy'n troseddu.
- Rhoddodd y Gwasanaeth Prawf ddiweddariad ar ddata Cohort IOM yn Ne Cymru.
- Roeddynt yn llwyddiannus yn sicrhau cyllid a fydd yn ffocysu ar cohort sefydlog, ond yn y pen draw gellir ei ystyried ar gyfer pob cohort.
- Mae cytundeb wedi bod ynghylch Gweithiwr Cefnogi Oedolion Ifanc i eistedd ar dîm Caerdydd. Mae hyn wedi cael ei weithredu yn dilyn canfyddiadau o adolygiad dynladdiad diweddar. Byddant yn cynnig allgymorth, dim llwyth achos benodol.
- Nod y canfyddiadau o'r cynllun peilot hwn fydd i hysbysu cyflwyno'r rôl ar draws timau yng Nghymru a Lloegr.

Atal ac Ymyrraeth Gynnar

- Amlygodd VPU drwy Ddyletswydd Trais Difrifol y bydd data ar gael a fydd yn gallu bwydo i ddatblygiad asesiad strategol ar gyfer trosedd ieuencid difrifol. Cytunwyd gan y Bwrdd bod gweithgareddau yn y Cynllun Cyflenwi fod yn ymateb i'r asesiad strategol.
- Cynigiodd y Dirprwy Gyfarwyddwr VPU i arwain ar Atal ac Ymyrraeth Gynnar.

Cydraddoldeb Hiliol :

Heddlu Gogledd Cymru:

Dioddefwyr a Thystion:

Cod Ymarfer Dioddefwyr:

- Mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i archwilio ei gydymffurfiaeth ei hun gyda VCOP bob chwarter.
- Mae gan Heddlu Gogledd Cymru ffurflen gyswllt rhyngweithiol ar y we i ddioddefwyr bellach. Yn fyw ym mis Mai 2022
- Llysoedd Camdriniaeth Domestig - O'r 1 Mai 2022, dechreuodd Gwasanaethau Cyfiawnder wiriadau ansawdd ffelïau 'Cyn-Cyhuddiad' ar gyfer pob achos Camdriniaeth Domestig cyn cyflwyno i'r CPS i gael cyngor.
- Mae diffynyddion Camdriniaeth Domestig ar fechniaeth (paratoi mewn 14 diwrnod) ar gyfer llys Camdriniaeth Domestig penodol.

Trais

- Mae cynllun gweithredu Trais Gogledd Cymru wedi'i ail-fformadu ei holl gynlluniau rhanbarthol yng Nghymru a fydd yn gyson.
- Ffocysu ar gynyddu Cyngor Ymchwiliad Cynnar i swyddogion.
- Dim camau gweithredu pellach ar achosion dip Trais wedi samplu gan y Panel Gwaredu y Tu Allan i'r Llys Aml-Asiantaeth.
- Achosion Trais sampl dip i edrych ar resymau pam fod dioddefwyr yn ymddieithrio
- O ran trais, mae'n cymryd cyfartaledd o 279 o ddiwrnodau yng Ngogledd Cymru o'r cyhuddiad at gwblhau'r achos (llys y Goron) o'i gymharu â 435 yn genedlaethol.
- Mae tîm dadansoddi wedi ymgysylltu ar hyn o bryd mewn adolygiad golwg fanwl ar ddata Trais yng Ngogledd Cymru.

Safleoedd dolen fideo byw:

- Mae'r 3 safle yn weithredol.
- Mae safle Wrecsam wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer un gwrandawriad y llys teulu ac un gwrandawriad troseddol.
- Cynyddu cyfathrebu ar gyfer y ddwy safle yng Ngorllewin y rhanbarth.

Pobl sydd wedi troseddu:

- Mae Strategaeth Cyfiawnder Merched Gogledd Cymru wedi'i gyhoeddi, a bydd y Grŵp Cyflenwi Cyfiawnder Merched Gogledd Cymru yn cefnogi cyflenwad y strategaeth ar lefel weithredol.
- Ym mis Ebrill 2022, bu i'r aelodau Tîm Adolygu Craidd wedi'i arwain yn seicolegol Cymru gyfan ymweld â Gogledd Cymru i werthuso'r cynllun peilot hwn. Disgwylir y byddant yn gallu rhannu eu canfyddiadau a darparu adroddiad tuag at ddiwedd mis Mai neu ddechrau mis Mehefin.
- Mae cynllun peilot Cynhadledd Achos Troseddwr Benywaidd yn parhau gydag achos misol.

Atal ac Ymyrraeth Gynnar:

- Datblygu Dulliau adferol o fewn cartref gofal i osgoi troseddau i Blant a Phobl Ifanc sydd â phrofiad mewn gofal.
- Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Sir y Fflint a Wrecsam yn edrych ar brosiect amrywiaeth o fewn darpariaeth preswyl therapi aml-system newydd sydd i'w agor yn ddiweddarach eleni.
- Mae Paneli y Tu Allan i'r Llys Conwy a Sir Ddinbych yn berthnasol i'r rhestr wirio 10-pwynt yn sicrhau ymarferion adfer wedi cymryd lle.
- Mae Meddygon y Stryd wedi cael eu comisiynu i ddarparu sesiynau rhyngweithiol ar gyngor achub bywyd i bobl ifanc sydd yn rhan o ddigwyddiadau cylllell.
- Mae Gwasanaeth Ieuencid Cyfiawnder Wrecsam yn gweithio gyda Safbwynt Plant i wella eu dealltwriaeth o ddata tueddiadau atal.